# Ffurflen amrywiaeth ar y sgrin S4C – canllawiau

Mae'r ffurflen i'w llenwi fel rhan o'r gwaith papur terfynol ar gyfer darn o gynnwys, a dylai fod yn seiliedig ar y fersiwn derfynol o'r ffeil ddarlledu a sy’n cael ei chyflwyno i S4C.

Hoffem i chi gyfri’r bobl sy'n ymddangos ar y sgrin yn y cynnwys, a'u categoreiddio yn ôl sut maen nhw’n ymddangos i'r gwyliwr cyffredin. Dydyn ni ddim am i chi ddefnyddio unrhyw wybodaeth a allai fod gennych trwy gysylltiad personol â'r cyfrannwr/cyflwynydd/actor, ond yn hytrach seilio'r categoreiddio ar sut maen nhw'n ymddangos a'r hyn maen nhw'n ei ddweud.

Ry’ ni hefyd yn gofyn i chi nodi ychydig o fanylion ynglŷn â themâu yn y bennod, a sut/a yw'n cynrychioli gwahanol gymunedau yng Nghymru.

**Pam rydyn ni'n gofyn hyn?**

Mae S4C yn ddarlledwr sy'n anelu i gynrychioli Cymru heddiw yn ei holl amrywiaeth, ac mae angen y wybodaeth hon arnom ni i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud ein gwaith. Bydd yn ein galluogi i gael trosolwg o’n cynnwys drwy gydol y flwyddyn a chymharu â'r hyn ni’n ei wybod am gyfansoddiad Cymru o ffynonellau eraill (megis y Cyfrifiad).

**Beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'r wybodaeth?**

Ar wahân i'r gwiriadau yn y fan a'r lle a fydd yn cael eu cynnal i sicrhau cydymffurfiaeth, fyddwn ni ddim yn edrych ar benodau unigol – yr hyn sy'n bwysig i ni yw'r darlun cyffredinol. Bydd y ffurflen yn ein galluogi i greu adroddiadau i ddangos i'r comisiynwyr pa fath o bortread o Gymru mae S4C yn ei ddarlledu dros y flwyddyn, ac adnabod unrhyw fylchau neu anghydbwysedd. Bydd hyn wedyn yn llywio eu comisiynu yn y dyfodol.

**Sut ydw i'n llenwi'r ffurflen?**

Yn **Adran 1** rydym yn gofyn i chi gyfri’r bobl sy'n ymddangos ar y sgrin fel cyfranwyr, cyflwynwyr ac actorion. Nid oes angen i chi gyfrif artistiaid cefnogol, neu dyrfau – dim ond yr unigolion hynny sy'n cyfrannu at y naratif. Mae hyn yn cynnwys unrhyw droslais.

Fel arfer, dim ond y bobl sy’n siarad yn y bennod byddwn yn disgwyl i chi eu cyfri. Os mae cymeriad neu gyfrannwr sydd ddim yn siarad ond sy’n bwysig/ganolig i'r naratif, mae’n iawn i'w cynnwys nhw hefyd. Ond does dim angen craffu ar bawb sydd yn y cefndir neu yn mynd heibio yn y golygfa.

Yna rydyn ni eisiau i chi gategoreiddio'r bobl hynny yn ôl nodweddion penodol, *fel y byddai'r gwyliwr cyffredin yn eu gweld*. Mae hynny’n golygu bydd angen i chi ddychmygu mai dyma’r tro cyntaf i chi wylio’r raglen, a bod chi ddim yn gwybod dim byd am y bobl ar y sgrin a’i bywydau heblaw’r hynny sy’n cael ei datgelu fel rhan o’r bennod. Mae'n bwysig iawn nad ydych chi'n seilio'r categorïau hynny ar unrhyw beth heblaw sut mae'r person yn ymddangos ar y sgrin, a'r hyn maen nhw'n ei ddweud yn y bennod hon – e.e. os yw'n ddrama rydych chi'n ei gwylio, yna mae'r penderfyniadau yn seiliedig ar y cymeriad ac nid yr actor.

Nid oes angen manylion pob unigolyn arnom – y cyfanswm sydd o ddiddordeb i ni. Er enghraifft:

Mewn drama gydag 8 cymeriad:

- Mae 5 yn ddynion/bechgyn ac mae 3 yn fenywod/merched
- Mae 2 yn oedolion iau, 2 oedran ysgol gynradd, 3 oedran canol oed ac 1 oedrannus

- Mae 8 yn Wyn
- Mae gan 1 nam gweladwy ar y clyw (cymhorthion clyw) ac nid oes unrhyw anabledd arall yn weladwy

Yn **Adran 2** rydym am gasglu rhywfaint o wybodaeth am yr iaith sy'n cael ei chlywed a'r ardal sy'n cael ei chynrychioli, lle bynnag y bo'n bosibl. Yn aml bydd cymysgedd, a/neu fydd hi ddim yn bosibl dweud, ac mae hynny'n iawn hefyd – mae opsiwn i nodi hynny ar y ffurflen.

Hefyd yn yr adran hon gofynnwn i chi nodi unrhyw themâu amrywiaeth sy'n cael eu trafod. Tra bod Adran 1 yn gofyn i chi ddweud wrthym beth fydd casgliadau'r gynulleidfa am y bobl/cymeriadau sy'n ymddangos ar ein sgriniau, mae'r cwestiwn hwn yn ymwneud â phethau sy'n cael eu dweud wrthym. Gallwn hefyd fesur yma pan fydd y materion hyn yn cael eu trafod gan eraill, nid dim ond pobl sydd â'r nodweddion hynny. Dyma rai enghreifftiau:

- Mae cyfrannwr yn cael ei gyfweld gan gyflwynydd sy'n defnyddio cadair olwyn. Mae'r cyfrannwr yn sôn am ei achau Indiaidd:
    - Adran 1: Cyfrannwr – Ethnigrwydd cymysg
    - Adran 1: Cyfwelydd – Anabledd gweladwy
    - Adran 2: Thema – Ethnigrwydd (India)
- Mae rhaglen gelfyddydol yn cyfweld ag artist sydd wedi'u hysbrydoli gan eu profiadau o ailbennu rhywedd (rhyw/rhywedd y cyfrannwr a nodir yn Adran 1 fel unrhyw un o'r tri opsiwn yn dibynnu ar yr unigolyn; Hunaniaeth rhywedd sydd wedi'i ddewis fel thema a drafodir yn Adran 2).
- Mae rhaglen ddogfen yn cyfweld â meddyg am y problemau sy'n wynebu pobl oedrannus yn ystod cyfnod o wres eithriadol (meddyg wedi'i gyfrif o dan y categorïau sy'n berthnasol iddyn nhw yn Adran 1; Oedran sydd wedi'i ddewis fel thema yn Adran 2)

Bydd yna lawer o achlysuron lle na fydd y bobl rydyn ni'n eu gweld a'u clywed ar ein sgrin yn ffitio'n daclus i'r categorïau hyn – mae hynny'n iawn. Mae yna opsiynau i'w nodi lle nad yw'n bosibl categoreiddio.

## Rhagor o wybodaeth am gategorïau Adran 1

### Rhyw/rhywedd

I'r mwyafrif o bobl, mae eu rhyw a rhywedd yr un peth. Rydyn ni i gyd yn gwneud rhagdybiaethau yn seiliedig ar y ffordd y mae rhywun yn gwisgo, eu nodweddion corfforol, eu llais ac yn y blaen – dyma beth rydyn ni eisiau nodi. Mae gan y lleiafrif bach o bobl lle nad yw eu rhyw a'u rhywedd yn cyd-fynd (sy'n cael eu cyfeirio atynt yn gyffredin fel pobl drawsryweddol neu draws) y nodwedd o ailbennu rhywedd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Nid ydym yn nodi hynny yn Adran 1 gan nad yw'n rhywbeth sy'n bosibl rhagdybio. Os oes rhywun yn trafod eu statws traws fel rhan o'r bennod, mae'n bosibl cynnwys hyn yn Adran 2.

### Oedran

Weithiau mae'n anodd dyfalu union oedran rhywun, felly mae'r categorïau hyn yn fwriadol amwys.

Ar gyfer plant bach iawn, nid oes angen eu recordio os ydyn nhw'n digwydd bod yn y llun (e.e. mae rhywun sy'n cael ei gyfweld yn dal eu plentyn, ond ddim yn trafod unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r plentyn hwnnw) – dim ond os yw nhw'n gyfranogwyr i'r cynnwys (e.e. rhaglenni plant) neu os yw'r naratif yn canolbwyntio arnyn nhw (e.e. rhaglen ddogfen lle mae plentyn penodol yn cael ei drafod).

**Ethnigrwydd**

Unwaith eto, mae'r categorïau hyn yn fwriadol eang, ac nid ydym yn gofyn am yr un manylion y byddem yn gofyn i unigolion. Rydyn ni eisiau i chi ddod i'r casgliad hwn yn seiliedig ar y ffordd y mae rhywun yn ymddangos a'r wybodaeth y maent yn ei rhannu (neu sy'n cael ei rhannu amdanyn nhw) yn y bennod. Os na allwch chi ddweud mewn gwirionedd, nodwch hynny.

**Anabledd**

Y diffiniad cyfreithiol o anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yw nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor (fel arfer 12 mis neu fwy) ar allu person i wneud gweithgareddau dyddiol arferol.

Pethau a fyddai'n cael eu cynnwys yn y diffiniad hwn yw:

- B/byddar neu drwm eu clyw
- Dall neu nam ar eu golwg
- Cyhyrysgerbydol (*musculo-skeletal*: er enghraifft, cydgysylltu, symudedd, defnyddiwr cadair olwyn)
- Iechyd meddwl (er enghraifft, iselder, anhwylder deubegynol)
- Cyflyrau niwroamrywiol (er enghraifft, awtistiaeth, ADHD, dyslecsia)
- Anableddau dysgu a gwybyddol (er enghraifft, Syndrom Down)
- Salwch neu gyflwr hirdymor
- Arall (gan gynnwys cyflyrau corfforol neu feddyliol fel diabetes, epilepsi, arthritis, asthma, namau ar y lleferydd, anffurfiad wyneb)

Nid yw pob anabledd yn weladwy, ac rydym yn gofyn i chi gyfrif dim ond y bobl hynny sy'n amlwg yn anabl. Os ydych chi'n gwybod bod gan rywun anabledd neu gyflwr iechyd, ond ni fydd hynny'n amlwg i'r gwyliwr cyffredinol, *peidiwch â'i recordio*. Os oes rhywun yn datgelu neu'n trafod eu hanabledd anweledig, gallwch gofnodi hynny yn y rhan "themâu" o Adran 2.

## Rhagor o wybodaeth am gategorïau Adran 2

Lle mae Adran 1 yn ymwneud â'r hyn y gallwn ei weld ar y sgrin, mae Adran 2 yn ymwneud â'r hyn y gallwn ei glywed (yr hyn sy'n cael ei drafod).

**Iaith**

Gofynnwn i chi asesu'r math o Gymraeg neu dafodiaith sy'n cael ei *ddefnyddio'n bennaf* yn y bennod. Nid yw hyn byth yn mynd i fod yn gyfan gwbl un neu'r llall, ond er enghraifft byddai Pobol y Cwm yn iaith y De *yn bennaf* a byddai Rownd a Rownd yn iaith y gogledd *yn bennaf*. Bydd gan lawer o'n rhaglenni gymysgedd cyfartal.

Rydym hefyd eisiau gwybod faint o Saesneg sy'n cael ei ddefnyddio – mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn cadw at ein Canllawiau Iaith, ond hefyd sicrhau ein bod yn amserlennu'n gytbwys.

**Ardal ddaearyddol**

Fel rhan o'n hymrwymiad i amrywiaeth, rydym am wneud yn siŵr bod pob ardal o Gymru yn cael ei chynrychioli, a bydd hyn yn ein helpu i fapio ble rydyn ni'n dangos ar y sgrin. Gallwch ddefnyddio'r hyn rydych chi'n ei weld a'r hyn rydych chi'n ei glywed i helpu gyda hyn.

**Themâu**

Nid yw pob maes amrywiaeth yn weladwy. Er enghraifft, os yw cwpl o'r un rhyw yn cael ei bortreadu ar y sgrin, gallent fod yn hoyw/lesbiaidd, ond gallent hefyd fod yn ddeurywiol – os nad ydyn nhw'n dweud wrthym, nid ydym yn gwybod. Yn yr un modd, ni fyddem yn gofyn i unrhyw un ddyfalu a yw rhywun yn drawsryweddol – dim ond os yw'r person ei hun yn dweud wrthym.

Mae'r adran hon hefyd yn ein galluogi i gofnodi lle rydym yn canolbwyntio'n benodol ar y meysydd hyn o amrywiaeth (yn hytrach na dangos gwahanol bobl ar y sgrin yn unig). Ticiwch y blwch i ddangos bod yr amrywiaeth yn cael ei drafod, ac ychwanegwch fwy o wybodaeth i'r ffurflen lle’n briodol. Does dim angen gwybodaeth fanwl – dim ond gair neu ddau. Dyma rai enghreifftiau:

- Oedran (e.e. “pobl hŷn”)
- Anabledd (e.e. “niwroamrywiaeth”)
- Ethnigrwydd (e.e. “cymuned Somali”)
- Hunaniaeth rhywedd (e.e. “dynion traws”)
- Rhyw (e.e. “iechyd menywod”)
- Cyfeiriadedd rhywiol (e.e. “Wythnos Pride”)
- Crefydd (e.e. “Diwali”)